



Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17 Mynediad i'r rhyngrwyd a gwasanaethau cyhoeddus ar-lein

31 Awst 2017
SB 44/2017

Gofynnwyd i bobl a oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gartref, a oeddent yn cysylltu gan ddefnyddio band eang, eu boddhad gyda'r cyflymder, a oeddent yn bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd a pha mor aml maent yn defnyddio'r rhyngrwyd. Gofynnwyd iddynt hefyd a oeddent yn mynd i wefannau'r llywodraeth neu wasanaethau cyhoeddus eraill ac a oeddent wedi ymgymryd â thrafodiad ar-lein ar un o'r gwefannau hyn.

Canfyddiadau allweddol

- Roedd gan 84% o aelwydydd fynediad i'r rhyngrwyd; 88% o aelwydydd mewn llety wedi'i rentu'n breifat, 87% o aelwydydd sy'n eiddo i berchen-feddianwyr a 72% o aelwydydd mewn tai cymdeithasol.
- Mae 37% o'r aelwydydd yn cysylltu â'r rhyngrwyd drwy fand eang cyflym iawn; mae hyn wedi cynyddu o 21% yn 2014-15.
- Mae 85% o bobl yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref, yn y gwaith neu yn rhywle arall.
- Mae 40% o bobl 75 oed a throsodd yn defnyddio'r rhyngrwyd o gymharu â 22% yn 2012-13.
- Roedd 92% o bobl sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn ei defnyddio o leiaf unwaith y dydd gyda 71% yn ei defnyddio sawl gwaith y dydd.
- Mae 69% o'r boblogaeth o oedran gweithio (16 i 64 oed) sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ac mewn cyflogaeth yn mynd i wefannau gwasanaethau cyhoeddus o gymharu â 66% sy'n economaidd anweithgar a 54% o'r rhai sy'n ddi-waith.
- Roedd 48% o bobl a oedd wedi mynd i wefan gwasanaeth cyhoeddus hefyd wedi ymgymryd â thrafodiad ar-lein ar y math hwn o wefan.



Y bwletin hwn

Mae'r bwletin hwn yn rhoi dadansoddiad manylach o ganlyniadau 2016-17 ar gyfer y cwestiynau ar fynediad i'r rhyngrwyd a gwasanaethau cyhoeddus ar-lein.

Mae hefyd yn cymharu canlyniadau dros flynyddoedd.

Mae'r holiadur llawn ar gael ar [dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol](#).

Gellir gweld tablau ychwanegol yn y [Dangosydd canlyniadau](#).

Yn y bwletin hwn

Cyflwyniad 2

Mynediad i'r rhyngrwyd a chysylltiad

band eang 3

Defnydd personol o'r rhyngrwyd 9

Gwefannau llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus 12

Gwybodaeth allweddol o ansawdd 17

Cyflwyniad

[Cymunedau Digidol Cymru](#) yw rhaglen cynhwysiant digidol Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar bobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwd ac felly sy'n colli'r cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd y mae'r rhyngwrwd yn eu cynnig.

Y rhaglen:

- Mae'n rhoi cymorth sylweddol i 100 o sefydliadau a rhywfaint o gymorth i 200 o sefydliadau bob blwyddyn yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol sy'n dangos arferion gorau o ran sut i ennyn diddordeb pobl mewn technolegau a'u helpu i ddatblygu sgiliau digidol sylfaenol.
- Mae'n gweithio gyda sefydliadau er mwyn helpu i gefnogi 30,000 o bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i ddefnyddio technoleg bob blwyddyn
- Mae'n darparu hyfforddiant i 1,000 o staff rheng flaen a gwirfoddolwyr i helpu i gefnogi pobl i fod ar-lein.
- Mae'n lleoli 500 o wirfoddolwyr Cynhwysiant Digidol.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio canfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol ochr yn ochr â thystiolaeth a ddarperir gan sefydliadau eraill (e.e. OfCom, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Awdurdodau Lleol, y sector preifat) er mwyn nodi anghenion digidol poblogaeth Cymru. Mae ganddi ddiddordeb mewn cael gwybod cyfran a nodweddion yr aelwydydd â mynediad i'r rhyngwrwd a hebdo ac, yn yr un modd, broffil y rhai sy'n defnyddio'r rhyngwrwd yn bersonol er mwyn datblygu mentrau newydd a monitro hynt rhaglenni presennol.

Yn 2016-17, gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru i bobl a oeddent yn defnyddio'r rhyngwrwd eu hunain ac a oedd gan eu haelwyd fynediad i'r rhyngwrwd. Gofynnwyd yr un cwestiynau mewn arolygon blaenorol; yr arolwg Byw yng Nghymru o 2004 i 2008; ac Arolwg Cenedlaethol Cymru gwreiddiol 2012-15. Mae cysondeb geiriad cwestiynau drwy gydol y cyfnod hwn yn ei gwneud yn bosibl olrhain tueddiadau yn y defnydd o'r rhyngwrwd a mynediad i'r rhyngwrwd. Ni chyflwynir canlyniadau ar gyfer y flwyddyn 2015-16 gan na chynhaliwyd yr Arolwg Cenedlaethol dros y cyfnod hwn.


Yn ychwanegol at gynyddu cynhwysiant digidol ymhlith pobl Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod manteision economaidd a chymdeithasol cysylltedd digidol ac mae'n ymrwymedig, drwy'r Rhaglen Lywodraethu 'Symud Cymru Ymlaen', i gynnig mynediad i fand eang cyflym a dibynadwy i bob safle yng Nghymru. Yn ychwanegol at adrodd canlyniadau ar allgáu digidol, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn rhoi tystiolaeth gyd-destunol drwy ofyn cwestiynau ynghylch y gwefannau cyhoeddus mae pobl wedi mynd iddynt ac a oeddent yn fodlon ar y wefan ai peidio. Gofynnwyd i bobl hefyd a oeddent wedi ymgymryd â thrafodiad ar-lein ar un o'r gwefannau hyn ac, os nad oeddent wedi gwneud hynny, gofynnwyd iddynt roi'r rheswm/rhesymau pam.

Mynediad i'r rhyngrwyd a chysylltiad band eang

Fel y trafodwyd yn y cyflwyniad, gofynnwyd cwestiynau ar fynediad aelwydydd i'r rhyngrwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol (ac arolygon blaenorol) ers 2004. Yn 2004, roedd gan 43% o aelwydydd fynediad i'r rhyngrwyd gartref. Mae'r gyfran hon wedi codi'n gyson dros y blynyddoedd ac, yn 2016-17, dangosodd yr arolwg fod gan 84% o aelwydydd fynediad i'r rhyngrwyd.

Roedd cyfran yr aelwydydd rhent preifat â mynediad i'r rhyngrwyd yn 2016-17 yr un peth ag aelwydydd sy'n eiddo i berchen-feddianwyr (88% a 87%). Mewn gwrthgyferbyniad, cyfran yr aelwydydd mewn tai cymdeithasol a oedd â mynediad i'r rhyngrwyd oedd 72%. Yn 2014-15, roedd 81% o gartrefi wedi'u rhentu'n breifat ac sy'n eiddo i berchen-feddianwyr yn cael mynediad i'r rhyngrwyd ac roedd gan 61% o aelwydydd mewn tai cymdeithasol fynediad. Gwelwyd y bwch rhwng y rhai mewn tai cymdeithasol a'r rhai mewn deiliadaethau eraill mewn blynyddoedd blaenorol, ac mae'n debyg ei fod yn culhau'n raddol, gan fod y tri math o ddeiliadaeth wedi cynyddu eu cyfran sydd â mynediad i'r rhyngrwyd.

Siart 1: Mynediad aelwydydd i'r rhyngrwyd yn ôl cwintel amddifadedd a blwyddyn



Mae Siart 1 yn dangos y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn mynediad aelwydydd i'r rhyngrwyd yn ôl cwintellau amddifadedd MALIC¹. Mae hefyd yn dangos bod mwy o gyfle i gynyddu mynediad ymhlith grwpiau â lefelau mynediad is. Cafodd aelwydydd sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig gynnydd 13 pwynt canran mewn mynediad rhwng 2012-13 a 2016-17. Dangosodd y rhai yn yr 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig gynnydd 9 pwynt canran, o 81% yn 2012-13 i 89% yn 2016-17.


Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau am y mathau o bethau sydd gan rai pobl, ond y mae eraill yn cael trafferth talu amdanynt. Drwy ddadansoddi'r canlyniadau o'r cwestiynau hyn gellir mesur amddifadedd materol aelwydydd². Mae gan 80% o aelwydydd mewn amddifadedd materol fynediad i'r rhyngrwyd gartref o gymharu ag 85% o aelwydydd nad ydynt mewn amddifadedd materol.

¹MALIC – gweler [Termau a diffiniadau](#)

²Amddifadedd materol – gweler [Termau a diffiniadau](#)

Mae adroddiad OfCom “[Defnyddio'r rhyngwrwd ac agweddau \(2016\)](#)” yn cyflwyno canfyddiadau o'i arolwg ystadegol blynyddol o ddatblygiadau yn y sector cyfathrebu. Nododd fod gan 79% o aelwydydd yng Nghymru fynediad i fand eang sefydlog gartref yn chwarter cyntaf 2016 (Ionawr – Mawrth), sef cynnydd o 2 bwynt canran ers y flwyddyn flaenorol (77%). Nododd hefyd fod gan 86% o aelwydydd yng Nghymru fynediad i'r rhyngwrwd drwy gysylltiad band eang neu ddyfais symudol. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu chwe phwynt canran ers 2014, pan oedd yn 80%.

Siart 2: Mynediad aelwydydd i'r rhyngwrwd yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn




Mae Siart 2 yn dangos amrywiad ym mynediad aelwydydd i'r rhyngwrwd dros flynyddoedd ac awdurdodau lleol. Mae'r canfyddiadau awdurdod lleol wedi'u trefnu gan ddefnyddio canlyniadau 2016-17, lle roedd mynediad aelwydydd i'r rhyngwrwd yn amrywio o 77% ym Merthyr Tudful i 89% yng Nghaerdydd. Yn gyffredinol, bu cynnydd graddol mewn mynediad i'r rhyngwrwd ers 2012-13

tra bo'r newid cyfrannol yn amrywio ar gyfer pob awdurdod lleol. Cafodd Rhondda Cynon Taf gynydd o 11 pwynt canran rhwng 2014-15 a 2016-17 tra na welodd Gwynedd gynydd o gwbl. Mae'r awdurdodau lleol yr oedd ganddynt y lefelau mynediad isaf yn 2012-13 yn tueddu i ddangos mwy o gynydd pwynt canran na'r rhai a ddechreuodd gyda'r lefelau uchaf yn 2012-13. Dangosodd awdurdodau megis Merthyr Tudful a Blaenau Gwent a ddechreuodd gyda mynediad o oddeutu 65% gynydd o 12 a 14 pwynt yn ôl eu trefn tra cynyddodd y rhai a ddechreuodd ar fynediad o oddeutu 80% (e.e. Caerdydd, Bro Morgannwg) 8 pwynt canran. Er gwaethaf y lefelau cynyddol hyn o fynediad aelwydydd i'r rhyngwyd cynyddol hyn ar gyfer pob awdurdod, mae'r gwahaniaeth rhwng y rhai ar frig a gwaelod y siart yn parhau i fod yn sylweddol.

Mae Siart 3 yn dangos bod amrywiad hefyd mewn mynediad band eang rhwng mathau o aelwydydd. Roedd cyfran uwch o aelwydydd â mwy nag un oedolyn a/neu blant yn fwy tebygol o fod â chysylltiad band eang gartref nag aelwydydd un oedolyn heb blant.

Siart 3: Mynediad aelwydydd i'r rhyngwyd yn ôl math o aelwyd a blwyddyn




Math o fand eang

Yn 2016-17, dangosodd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol fod 37% (21% yn 2014-15) o aelwydydd yn cysylltu drwy fand eang cyflym iawn, tra bo 61% (77% yn 2014-15) yn cysylltu drwy fand eang, ond nid cyflym iawn (neu roeddent yn ansicr a oedd ganddynt gysylltiad cyflym iawn). Fel yn 2014-15, roedd 2% o aelwydydd yn defnyddio dull arall o gysylltu â'r rhyngwyd.

Mae Siart 4 yn dangos gwahaniaeth sylweddol rhwng awdurdodau lleol wrth edrych ar gyfrannau o aelwydydd sy'n cysylltu â'r rhyngwyd drwy ddefnyddio band eang cyflym iawn. Pen-y-bont ar Ogwr sydd â'r gyfran fwyaf sy'n cysylltu yn y modd hwn, sef 55%, ond dim ond 17% o aelwydydd ym Mhowys sy'n cysylltu drwy fand eang cyflym iawn. Dangosodd y ddau awdurdod lleol gynydd yn y defnydd o fand eang cyflym iawn ers 2014-15; Pen-y-bont ar Ogwr i fyny o 23% a Phowys o 2%.

Siart 4: Cysylltiad band eang cyflym iawn yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn




Mae'r amrywiad mewn lefelau o gysylltiad band eang cyflym iawn mewn awdurdodau lleol yn awgrymu bod argaeledd band eang cyflym a daearyddiaeth yn ffactorau. Yn yr un modd, mae Siart 5 yn dangos bod cyfran yr aelwydydd sy'n cysylltu â'r rhyngwrdd drwy fand eang cyflym iawn yn wahanol rhwng ardaloedd gwledig a threfol³; roedd hyn yn wir yn 2014-15 a 2016-17. Roedd 43% (25% yn 2014-15) o aelwydydd trefol yn cysylltu drwy fand eang cyflym iawn o gymharu â 25% (10% yn 2014-15) o aelwydydd gwledig.

³Trefol/Gwledig – gweler [Termau a diffiniadau](#)

Siart 5: Dosbarthiad trefol/gwledig yn ôl cysylltiad band eang a blwyddyn

■ Band eang cyflym iawn ■ Band eang, ond nid yw'n gyflym iawn (neu'n ansicr) ■ Heb gysylltiad band eang



Rhagor o ddadansoddiad – band eang cyflym iawn

Mae Siartiau 3 a 4 yn awgrymu bod cydberthynas rhwng lle mae rhywun yn byw ac a yw'r aelwyd yn cael mynediad i'r rhyngwrwyd drwy ddefnyddio band eang cyflym iawn ai peidio. Hefyd, nododd rhagor o drawsddadansoddi y gall oedran, rhyw a nifer y bobl yn yr aelwyd gael effaith ar ddefnydd cyflym iawn, yn ogystal ag a yw aelwyd mewn amddifadedd materol ai peidio.

Fodd bynnag, mae'r ffactorau hyn yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd (er enghraifft, mae oedolion o dan 25 oed yn fwy tebygol o fyw mewn llety rhent a pheidio â bod â phlant). Er mwyn cael dealltwriaeth gliriach o effaith ffactor unigol, rydym wedi defnyddio dulliau ystadegol er mwyn gwahanu effeithiau ffactorau a ddewiswyd ar b'un a yw aelwyd yn cysylltu â'r rhyngwrwyd â band eang cyflym iawn. Mae'r dulliau hyn yn ein galluogi i edrych ar effaith un ffactor wrth gadw ffactorau eraill yn gyson (a elwir weithiau "rheoli ar gyfer ffactorau eraill").⁴

Canfuom fod y canlynol yn ffactorau allweddol a oedd yn dylanwadu ar ddewis aelwyd i ddefnyddio band eang cyflym iawn ai peidio:

- math o aelwyd;
- amddifadedd materol aelwyd;
- awdurdod lleol;
- ardal drefol neu wledig;
- cymhwyster uchaf yr ymatebwr

Pan fyddwn yn rheoli ar gyfer yr holl ffactorau hyn, dengys y dadansoddiad fod aelwydydd â dau oedolyn a phlant yn fwy tebygol o fod â band eang cyflym iawn nag aelwydydd pensynwyr neu aelwydydd un rhiant. Mae lefelau amddifadedd aelwyd hefyd yn effeithio ar y defnydd o fand eang

⁴ Gelwir y dull hwn yn atchweliad logistaidd. Ceir gwybodaeth am y dull yn [Dadansoddiad atchweliad](#)

cyflym iawn. Ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill, mae pobl mewn aelwydydd difreintiedig yn llai tebygol o gael mynediad i'r rhyngwyd fel hyn.

Hyd yn oed ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill, cadarnhaodd y dadansoddiad atchweliad fod y mannau lle mae pobl yn byw hefyd yn effeithio ar y defnydd o fand eang cyflym iawn. Roedd aelwydydd mewn ardaloedd gwledig yn llai tebygol o fod yn gysylltiedig yn y modd hwn. Adlewyrchwyd y patrwm hwn o edrych ym mha awdurdod lleol roedd pobl yn byw. Fel y dangosodd y trawsddadansoddiad yn Siart 3, aelwydydd yng Ngheredigion oedd leiaf tebygol o gysylltu drwy fand eang cyflym iawn tra mai'r rhai ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd fwyaf tebygol, hyd yn oed o gadw ffactorau eraill yn gyson.

Wrth reoli ar gyfer ffactorau eraill, roedd y gwahaniaeth yn ôl y cymhwyster uchaf a gyflawnwyd yn llai pwysig nag iddo ymddangos gyda thrawsddadansoddiad syml. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth sylweddol o hyd rhwng y rhai heb gymwysterau a'r gweddill.

Mae'r canlyniadau hyn yn gwella ein dealltwriaeth o ganlyniadau'r arolwg ac yn cadarnhau llawer o'r tueddiadau a drafodwyd yn gynharach yn y bwletin. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn ein galluogi i ddehongli'r canfyddiadau â mwy o sicrwydd drwy ystyried un ffactor ar ei ben ei hun wrth gadw'r ffactorau eraill yn gyson.

Wrth gyfuno canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol ar y defnydd o fand eang cyflym iawn gyda data ar argaeledd band eang cyflym iawn (data OfCom ar lefel etholaeth⁵), dangosodd dadansoddiad atchweliad ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill, fod argaeledd yn gysylltiedig â'r defnydd o fand eang cyflym iawn; ond bod ffactorau eraill (uchod) yn cael fwy o effaith.

Bodddhad gyda chyflymder cysylltiad

Gofynnwyd i aelwydydd â mynediad band eang i'r rhyngwyd pa mor fodlon neu anfodlon roeddent ar gyflymder eu cysylltiad band eang â'r rhyngwyd gartref. Roedd 69% yn fodlon ar gyflymder eu cysylltiad tra roedd 24% yn anfodlon. Mae'r rhain yn debyg i'r canfyddiadau yn 2014-15.

Roedd 81% o aelwydydd â band eang cyflym iawn yn fodlon ar gyflymder y cysylltiad tra roedd 13% yn anfodlon. Mae hyn yn cymharu â 62% o aelwydydd â band eang, ond nid band eang cyflym iawn (neu a oedd yn ansicr a oedd yn gyflym iawn) a oedd yn fodlon ar gyflymder y cysylltiad, a 30% a oedd yn anfodlon.

⁵ Canfyddiadau OfCom ar [Argaeledd band eang cyflym iawn yn y DU](#)


Defnydd personol o'r rhyngrwyd

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru [Sicrhau Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol ar gyfer Cymru \(2016\)](#) yn nodi “Mae technoleg, a manteision ei defnyddio, yn dal i ddatblygu'n gyflym. Mae hyn yn bygwth dyfnhau'r bwlch digidol rhwng y defnyddwyr gweithredol sy'n gallu manteisio ar y technolegau sy'n gwella drwy'r amser, a'r rhai sy'n ei chael yn anodd goresgyn y rhwystrau i fynd ar-lein. Mae'r bobl hyn sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol mewn perygl o gael eu gadael ar ôl mewn cymdeithas, wrth i fwy a mwy o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, fynd ar-lein. .” (Cyflwyniad, para. 2)

Yn 2016-17, canfu'r Arolwg Cenedlaethol fod 85% o oedolion 16 oed neu drosodd yn defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol gartref, yn y gwaith neu yn rhywle arall.

Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) adroddiad: [Defnyddwyr Rhyngrwyd yn y DU, 2017](#) ym mis Mawrth 2017 a nododd fod 87% o bobl yng Nghymru wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn y 3 mis diwethaf. Roedd hyn yn amrywio yn ôl rhanbarth yn y DU o 84% yng Ngogledd Iwerddon i 87% yn yr Alban a 92% yn Ne-ddwyrain Lloegr. Y ffigur ar gyfer y DU gyfan oedd 89%.⁶

Siart 6: Defnydd personol o'r rhyngrwyd yn ôl grŵp oedran a blwyddyn



Mae Siart 6 yn dangos, ers blwyddyn lawn gyntaf yr Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13, fod cynnydd yng nghyfran y bobl sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn yr holl grwpiau oedran, gyda'r rhai 65 oed a throsodd yn dangos y cynnydd mwyaf er gwaethaf y ffaith bod gan y grŵp hwn y gyfran isaf o ddefnyddwyr rhyngrwyd o hyd. Dangosodd y ddau grŵp oedran hynaf, 65 i 74 oed a 75 oed a throsodd gynnydd o 18 pwynt canran rhwng 2012-13 a 2016-17. Mae'n ymddangos yn debygol bod hyn yn gyfuniad o ddefnyddwyr presennol y rhyngrwyd, sydd bellach yn dod o dan y garfan hŷn, ynghyd â defnyddwyr newydd sy'n cael mynediad i'r rhyngrwyd am y tro cyntaf.

Yn 2016-17, pan gawsant eu gwahanu'n ddau grŵp oedran yn unig, sef 16 i 49 oed a 50 a throsodd, roedd 97% o'r grŵp iau'n defnyddio'r rhyngrwyd o gymharu â 73% o'r rhai 50 oed a throsodd.

⁶ Mae'n rhaid bod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau ag arolygon eraill oherwydd gwahaniaethau yng ngeiriau cwestiynau a methodoleg, a allai gael effaith ar y canlyniadau.

Roedd defnydd personol o'r rhyngrwyd yn 2016-17 yn amrywio yn ôl nifer o ffactorau demograffig ac economaidd eraill:

- Rhyw: Nododd 87% o ddynion eu bod yn ddefnyddwyr presennol y rhyngrwyd, o gymharu ag 84% o fenywod. Fodd bynnag, ni chafwyd gwahaniaeth rhwng y rhywiau ar gyfer pobl o dan 65 oed. Dim ond i'r rhai sy'n 65 oed a throsodd y daw gwahaniaethau i'r amlwg. Yn y grŵp 75 oed a throsodd, roedd 48% o ddynion yn defnyddio'r rhyngrwyd o gymharu â 34% o fenywod.
- Materion iechyd: Roedd 75% o bobl â salwch cyfyngol hirsefydlog, anabled neu eiddilwch yn defnyddio'r rhyngrwyd, o gymharu â 90% o'r rhai heb y fath gyflwr.
- Statws cyflogaeth: O'r rhai 18 oed a throsodd, roedd 95% o'r rhai mewn cyflogaeth yn defnyddio'r rhyngrwyd, o gymharu â 90% o'r rhai a oedd yn ddi-waith a 72% o'r rhai a oedd yn economaidd anweithgar. Wrth edrych ar y boblogaeth oedran gweithio (16 i 64 oed), roedd 96% o'r rhai mewn cyflogaeth yn defnyddio'r rhyngrwyd o gymharu â 90% o'r rhai a oedd yn ddi-waith ac 91% o'r rhai a oedd yn economaidd anweithgar.
- Cymwysterau: O'r rhai heb gymwysterau, roedd 55% yn defnyddio'r rhyngrwyd; o'r rhai â chymwysterau ar lefelau 4 ac uwch y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol⁷, roedd 95% yn defnyddio'r rhyngrwyd.
- Deiliadaeth: Pobl mewn llety rhent oedd y grŵp mwyaf tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd (93%). Roedd 86% o bobl mewn eiddo i berchen-feddianwyr a 77% o bobl mewn tai cymdeithasol yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Wrth edrych ar un nodwedd yn unig ar y tro, mae'n bwysig sylwi ei bod yn anodd nodi beth yw'r nodweddion pwysicaf sy'n effeithio ar ddefnydd pobl o'r rhyngrwyd. Er enghraifft, mae'n bosibl nad yw'r lefelau is o'r defnydd o'r rhyngrwyd ymhlith y rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn ymwneud yn wirioneddol â'r math o dai o gwbl, ond bod hyn o ganlyniad i'r ffaith mai pensiynwyr, y rhai heb blant, neu'r rhai heb gymwysterau sydd fwyaf tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol.

Roedd dadansoddiad cynharach arall a gynhaliwyd ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2012-13 ([Adroddiad Cynhwysiant Digidol](#)) yn edrych ar effeithiau unigol y ffactorau amrywiol hyn. Wrth reoli ar gyfer ffactorau eraill, canfu'r adroddiad fod oedran a lefel addysg yn dod i'r amlwg fel ffactorau pwerus ar gyfer peidio â defnyddio'r rhyngrwyd. I'r gwrthwyneb, mae rhyw, lleoliad trefol/gwledig, trafferthion ariannol ac amddifadedd ardal yn cael effaith fach neu ddim effaith o gwbl.

Amllder defnyddio'r rhyngrwyd

Mae cwestiwn arall a ofynnwyd bob blwyddyn yn yr Arolwg Cenedlaethol ac yn ei ragflaenydd, sef Arolwg Byw yng Nghymru, yn ymwneud ag amllder defnyddio'r rhyngrwyd p'un ai gartref, yn y gwaith neu yn rhywle arall. Mae'r defnydd o'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd yn bwnc sy'n newid yn gyflym ac mae geiriad y cwestiwn wedi'i newid er mwyn adlewyrchu hyn. Yn 2005 (Arolwg Byw yng Nghymru) y categorïau ateb ar gyfer amllder oedd 'o leiaf unwaith yr wythnos', 'llai aml nag unwaith yr wythnos' a 'byth'. Erbyn 2016-17, roedd y categorïau hyn wedi newid i 'Sawl gwaith y dydd', 'Dyddiol', 'Wythnosol' a 'Llai nag wythnosol'.

Yn 2016-17, roedd 92% o'r bobl sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn cael mynediad iddi o leiaf unwaith y dydd gyda 71% yn cael mynediad iddi sawl gwaith y dydd. Oedran oedd yr amrywiad mwyaf o ran amllder. Roedd 87% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd 16 i 29 oed yn cael mynediad i'r rhyngrwyd sawl gwaith y dydd o gymharu â 35% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd 75 oed a throsodd.

⁷ Cymwysterau – gweler [Termau a diffiniadau](#)

Gwefannau yn y Gymraeg

Gofynnwyd i ddefnyddwyr y rhyngrwyd a oedd yn gallu darllen Cymraeg a oeddent wedi gweld unrhyw wefannau yn Gymraeg yn ystod y mis blaenorol. Yn 2016-17, dywedodd 36% o'r grŵp hwn eu bod wedi mynd i wefan yn Gymraeg, canran debyg i'r hyn a nodwyd yn 2014-15 (37%).

Ymhlith defnyddwyr y rhyngrwyd a oedd yn gallu darllen Cymraeg:


- roedd 29% o'r rhai mewn amddifadedd materol wedi mynd i wefan yn Gymraeg yn y mis blaenorol o gymharu â 37% nad oeddent mewn amddifadedd.
- roedd 39% o'r rhai 16 i 49 oed wedi mynd i wefan yn Gymraeg, o gymharu â 32% o'r rhai 50 oed a throsodd:
- roedd 44% o'r rhai â chymhwyster addysg uwch (lefel 4 neu uwch) wedi mynd i wefan yn Gymraeg yn y mis blaenorol, o gymharu â 17% o'r rhai â chymwysterau TGAU is na gradd C neu ddim cymwysterau⁸.

Cyfringau cymdeithasol

Dangoswyd rhestr o wefannau cyfringau cymdeithasol i ddefnyddwyr y rhyngrwyd a gofynnwyd iddynt pa rai (os unrhyw un) roeddent wedi mynd iddynt yn y mis blaenorol.

Mae Siart 7 yn dangos mai'r grŵp ifancaf o ddefnyddwyr y rhyngrwyd ym mhob achos sydd fwyaf tebygol o fynd i'r gwefannau hyn a bod cyfran y bobl sy'n defnyddio pob gwefan yn lleihau gydag oedran. Facebook oedd y wefan fwyaf poblogaidd o'r rhai a ddewiswyd ar gyfer pob grŵp oedran; roedd 89% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd 16 i 29 oed a 32% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd 75 oed a throsodd yn mynd iddi.

Siart 7: Mynd i wefannau cyfringau cymdeithasol, yn ôl grŵp oedran



⁸ Cymwysterau – gweler [Termau a diffiniadau](#)

Gwefannau'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd rhai pobl bob amser nad ydynt yn gallu neu nad ydynt yn fodlon defnyddio'r rhyngwrwd ac y dylai fod ffyrdd eraill o gyrchu nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag, mae [Sicrhau Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol ar gyfer Cymru \(2016\)](#) yn nodi'r angen i gefnogi'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ar hyn o bryd ac nad oes ganddynt y sgiliau i fynd ar-lein. Byddai cyrchu gwasanaethau cyhoeddus o fudd i lawer yn y grŵp hwn.

Yn 2016-17, dangoswyd rhestr o wefannau i bobl sy'n defnyddio'r rhyngwrwd a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi mynd i'r rhain neu wefannau'r llywodraeth neu wasanaeth cyhoeddus tebyg at ddefnydd personol yn y 12 mis blaenorol. Y rhestr o wefannau oedd:

- Gwefan Llywodraeth Cymru
- Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Gwefan Galw Iechyd Cymru
- Gwefan GIG Cymru neu feddygfa
- Gwefannau awdurdod/cyngor lleol
- Gwefannau ysgol/coleg
- Hwb – llwyfan dysgu Cymru gyfan
- Gwefan Gyrfa Cymru
- Gwefan Traveline Cymru/Trafnidiaeth Cymru
- Croeso Cymru/gwefannau twristiaeth eraill

Canfu'r arolwg y canlynol:

- Roedd 61% o ddefnyddwyr y rhyngwrwd wedi mynd i'r rhain neu wefannau tebyg.
- Roedd 47% o ddefnyddwyr y rhyngwrwd mewn tai cymdeithasol wedi mynd i wefan gwasanaeth cyhoeddus o gymharu â 65% mewn llety rhent preifat a 63% mewn llety sy'n eiddo i berchen-feddianwyr
- Roedd 67% o ddefnyddwyr y rhyngwrwd y dosbarthwyd eu bod yn economaidd weithgar wedi mynd i wefannau gwasanaethau cyhoeddus, o gymharu â 53% o'r rhai a oedd yn economaidd anweithgar. Yn y boblogaeth oedran gweithio (16 i 64 oed), roedd 69% o ddefnyddwyr y rhyngwrwd mewn cyflogaeth wedi mynd i'r math hwn o wefan, o gymharu â 66% a oedd yn economaidd anweithgar a 54% a oedd yn ddi-waith.


Fel gyda'r dadansoddiadau eraill yn y bwletin hwn rhwng grwpiau oedran y cafwyd y gwahaniaeth mwyaf mewn ymateb. Y rhai 16 i 29 oed oedd fwyaf tebygol o fynd i'r gwefannau hyn (69%), o gymharu â 35% o'r rhai 75 oed neu drosodd. Unwaith eto, mae'n debygol bod oedran yn fwy o ragfynegydd o lefel y defnydd o wefannau sector cyhoeddus na math o ddeiliadaeth neu statws cyflogaeth.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi mynd i wefannau gwasanaeth cyhoeddus neu Lywodraeth Cymru yn y 12 mis diwethaf pa mor fodlon roeddent ar y wefan. Dywedodd 86% eu bod yn fodlon; y grŵp mwyaf bodlon oedd y rhai 16 i 29 oed (89%) tra mai'r grŵp lleiaf bodlon oedd y rhai 75 oed a throsodd (81%).

Trafodiadau ar-lein – gwefannau gwasanaethau cyhoeddus lleol

Gofynnwyd i ddefnyddwyr y rhyngrwyd wedyn a oeddent wedi defnyddio gwefan gwasanaethau cyhoeddus er mwyn ymgymryd â thrafodiad ar-lein yn y 12 mis blaenorol. Dangoswyd rhestr o enghreifftiau o drafodiadau ar-lein iddynt. Yn 2016-17, dywedodd 48% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd eu bod wedi ymgymryd â thrafodiad. Y grŵp oedran mwyaf tebygol o fod wedi cwblhau trafodiad ar-lein oedd 65 i 74 oed (58%); y grŵp oedran lleiaf tebygol o fod wedi gwneud hynny oedd 16 i 29 oed (38%).

Siart 8: Wedi ymgymryd â thrafodiad ar-lein ar wefan gwasanaethau cyhoeddus lleol, yn ôl grŵp oedran a blwyddyn




Mae Siart 8 yn dangos cynnydd yn y defnydd o'r gwefannau hyn er mwyn ymgymryd â thrafodiad (nid pori nac anfon e-byst yn unig) rhwng 2014-15 a 2016-17. Y cynnydd mwyaf yn y math hwn o drafodiad ar-lein oedd ymhlith y rhai 65 i 74 oed. Roedd 58% wedi gwneud hynny yn 2016-17 o gymharu â 40% yn 2014-15. Yn nodedig, y grŵp a oedd yn ymgymryd â'r gyfran isaf o'r gweithgarwch hwn oedd y rhai 16 i 29 oed; ni ddangosodd lefel y gweithgarwch gynnydd dros y blynyddoedd ychwaith. Un esboniad posibl yw bod pobl yn y grŵp oedran hwn yn llai tebygol o fod yn bennaeth yr aelwyd ac, o ganlyniad, mae llai o angen arnynt i ryngweithio â gwasanaethau cyhoeddus ar-lein.

Gofynnwyd i bobl a oedd wedi ymgymryd â thrafodiad ar-lein pa mor hawdd neu anodd yr oedd i'w gwblhau. Dywedodd 94% ei bod yn hawdd a dywedodd 6% ei bod yn anodd. Gofynnwyd i'r rhai nad oeddent wedi cwblhau trafodiad ar-lein yn y 12 blaenorol pam nad oeddent wedi gwneud hynny; dangosir y canlyniadau yn Siart 9.

O'r rhai nad oeddent wedi cwblhau trafodiad ar-lein, y rheswm mwyaf cyffredin oedd dim angen (79%), yr ail reswm mwyaf cyffredin oedd bod yn well gan bobl gael mynediad i'r un gwasanaethau dros y ffôn neu'n bersonol (14%).

Siart 9: Rheswm dros beidio â bod wedi cwblhau trafodiad ar-lein gwasanaeth cyhoeddus lleol



Roedd yr Arolwg Cenedlaethol hefyd yn cynnwys cwestiynau ar yr amser oedd plant yn gwario ar ddyfeisiau electronig. Bydd y canlyniadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar 20 Medi 2017. Cyhoeddiad arall a allai fod o ddiddordeb i chi yw'r cyhoeddiad ar [ddiogelwch ar-lein i blant](#) sy'n seiliedig ar ganfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol 2014-15.

Termau a diffiniadau

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Defnyddir Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) fel y mesur swyddogol o amddifadedd yng Nghymru. Mae amddifadedd yn gysyniad ehangach na thlodi. Mae amddifadedd yn cyfeirio at broblemau ehangach a achosir gan brinder adnoddau a chyfleoedd. Felly, mae MALIC yn seiliedig ar wyth math gwahanol o amddifadedd, Y rhain yw: incwm, tai, cyflogaeth, mynediad at wasanaethau, addysg, iechyd, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol. Rhennir Cymru yn 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) a cheir tua 1,600 o bobl ym mhob un. Cyfrifwyd graddau amddifadedd ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn: rhoddir gradd 1 i'r ACEHI fwyaf difreintiedig, a 1,909 i'r lleiaf difreintiedig. Ar gyfer y bwletin hwn, rydym wedi grwpio'r bobl sy'n byw yn yr 20% o ACEHI sydd fwyaf difreintiedig ar sgôr MALIC a'u cymharu â'r 20% o'r ACEHI sydd leiaf difreintiedig. – gweler Amddifadedd materol isod hefyd.

Trefol/gwledig

Mae "trefol" yn cynnwys aneddiadau gyda phoblogaeth o 10,000 neu fwy a threfi bach a'u cyrion, lle mae'r ardal gyfagos ehangach yn fwy prin ei phoblogaeth. Mae "gwledig" yn cynnwys pob ardal arall.

Amddifadedd materol

Mae amddifadedd materol yn fesur a gynlluniwyd i gofnodi canlyniadau tlodi hirdymor ar aelwydydd, yn hytrach na straen ariannol byrdymor.

Gofynnwyd i oedolion nad oeddent yn bensiynwyr a oeddent yn cael 'gwyliau i ffwrdd oddi cartref am o leiaf wythnos y flwyddyn', a oedd ganddynt 'ddigon o arian i gadw eich cartref wedi ei addurno'n dda', neu a oeddent yn gallu 'cynilo £10 neu fwy y mis yn rheolaidd'. Ffocws y cwestiynau i oedolion oedd a oeddent yn gallu fforddio'r eitemau hyn. Mewn gwirionedd, mae'r eitemau hyn i'w 'haelwyd' yn hytrach nag iddynt yn bersonol, sef pam roeddent yn arfer cael eu galw'n 'amddifadedd materol aelwyd'.

Gofynnwyd cwestiynau ychydig yn wahanol i bensiynwyr megis a oedd eu 'cartref yn cael ei gadw'n ddigon twym', a oedd ganddynt 'fynediad at gar neu dacsî, pan oedd angen' neu a oedd eu 'gwallt yn cael ei drin neu ei dorri'n rheolaidd'. Roedd y rhain hefyd yn gofyn a allent eu fforddio, ond roeddent hefyd yn canolbwyntio ar beidio â gallu cael yr eitemau hyn am resymau eraill, megis iechyd gwael, neu neb i'w helpu ac ati. Roedd y cwestiynau hyn yn llai seiliedig ar yr aelwyd ac yn fwy am yr unigolyn.

Rhodddwyd sgôr i'r rhai nad oedd yr eitemau hyn ganddynt. Os nad oedd ganddynt unrhyw eitem ar y rhestr, byddent yn sgorio 100, ac os oedd ganddynt yr eitemau i gyd, byddent yn sgorio 0. Dosbarthwyd pobl nad oeddent yn bensiynwyr a oedd yn sgorio 25 neu fwy'n rhai difreintiedig a dosbarthwyd pensiynwyr a oedd yn sgorio 20 neu fwy'n rhai difreintiedig.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i rieni am yr hyn y gallent ei fforddio i'w plant.

Yn y bwletin hwn, cyfunir mesuriadau o amddifadedd pensiynwyr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr er mwyn darparu newidyn amddifadedd 'oedolion'. Gellir defnyddio'r termau amddifadedd 'oedolion' ac 'aelwydydd' yn gyfnewidiol gan ddibynnu ar y cyd-destun.

Cymwysterau

Mae cymwysterau ymatebwyr wedi cael eu grwpio yn ôl lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF), lle mai lefel 1 yw'r lefel isaf o gymwysterau a lefel 8 yw gradd ddoethurol neu gyfwerth. Ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, mae ymatebwyr wedi cael eu grwpio'n 5 grŵp. Mae'r rhai heb gymwysterau yn y categori isaf ac mae ymatebwyr â chymwysterau ar lefelau 4 i 8 wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd yn y categori cymwysterau uchaf. [Mwy o wybodaeth am lefelau'r NQF.](#)

Er mwyn rhoi disgrifiadau mwy ystyrlon o'r cymwysterau, defnyddiwyd y disgrifiadau byr hyn yn y bwletin hwn.

Lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	Disgrifiad a ddefnyddir yn y bwletin
Lefelau 4-8 yr NQF	Addysg uwch (Lefel 4+)
Lefel 3 yr NQF	Safon Uwch a chyfwerth (Lefel 3)
Lefel 2 yr NQF	Graddau A i C TGAU a chyfwerth (Lefel 2)
Is na Lefel 2 yr NQF	Gradd TGAU is nag C (is na Lefel 2)
Dim cymwysterau	Dim cymwysterau

Gwybodaeth allweddol o ansawdd

Cefndir

Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a nodir yn y bwletin hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau a gynhaliwyd yn ystod 2016-17 (30 Mawrth 2016 – 31 Mawrth 2017).

Tynnwyd sampl o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF) Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol, lle cynhwyswyd yr holl gyfeiriadau preswyl a'r mathau o anheddau yn y broses ddewis samplau ar yr amod eu bod wedi'u rhestru fel cyfeiriadau unigol. Os oeddent wedi'u cynnwys fel cyfeiriadau unigol ar y PAF, cynhwyswyd cartrefi parc preswyl ac anheddau eraill yn y ffrâm samplu, ond nid yw sefydliadau cymunedol megis cartrefi gofal a barics byddin ar y PAF, felly ni chawsant eu cynnwys.

Roedd sampl yr Arolwg Cenedlaethol yn 2016-17 yn cynnwys 21,666 o gyfeiriadau a ddewiswyd ar hap o'r PAF. Ymwelodd cyfwelwyr â phob cyfeiriad, dewiswyd un oedolyn (16 oed a throsodd) ar hap yn yr aelwyd a chynhaliwyd cyfweiliad wyneb yn wyneb 45 munud o hyd ag ef, a oedd yn gofyn am ei farn am amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arno a'i ardal leol. Cynhaliwyd cyfanswm o 10,493 o gyfweiliadau.

Dehongli'r canlyniadau

Mae'r canrannau a ddyfynnir yn y bwletin hwn ond yn seiliedig ar yr ymatebwyr a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol. Dim ond i is-sampl o ymatebwyr y gofynnwyd am rai pynciau yn yr arolwg ac ni ofynnwyd cwestiynau eraill lle nad oeddent yn berthnasol i'r ymatebydd. Gall atebion coll hefyd ddigwydd am nifer o resymau, gan gynnwys amharodrydd neu anallu i ateb cwestiwn penodol.

Lle nodwyd cydberthynas rhwng dau ffactor, nid yw hyn yn golygu mai cydberthynas achosol ydyw. Mae angen dadansoddiad manylach er mwyn nodi a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall.

Mae'r canlyniadau'n cael eu pwysoli er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a rhyw poblogaeth Cymru.

Adroddiad ansawdd

Mae Adroddiad Ansawdd cryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddir i lunio'r canlyniadau.

Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol yn agored i rywfaint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geir pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu. Gellir defnyddio cyfyngau hyder i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu. Gellir cyfrifo cyfwng hyder o amgylch amcangyfrif arolwg ac mae'n rhoi amrediad sy'n debygol o gynnwys y gwerth gwirioneddol. Mewn 95% o samplau arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y ffigur 'gwirioneddol' ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe byddai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan). Yn gyffredinol, po leiaf yw maint y sampl y mwyaf yw'r cyfwng hyder. Cynhwysir cyfyngau hyder yn nhablau canlyniadau'r arolwg a gyhoeddir ar StatsCymru.

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn agored i amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau eraill: er enghraifft, oherwydd diffyg ateb; oherwydd efallai na fydd ymatebwyd yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriedir iddynt wneud hynny neu'n ateb yn anghywir; ac oherwydd y gall cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael eu prosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornad yn gyfeiliornad nad yw'n gyfeiliornad samplu, ac fe'u trafodir ymhellach yn adroddiad ansawdd yr arolwg.

Gwahaniaethau arwyddocaol

Lle mae testun y datganiad hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng canlyniadau dau Arolwg Cenedlaethol (yn yr un flwyddyn), rydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol (ond fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un dau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Mae'n llai tebygol y bydd cadarnhau a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd yn arwain at gasgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau o'i gymharu â phrawf ystadegol ffurfiol. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan fo gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir bod gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal llawer o gymariaethau yn cynyddu'r siawns y ceir canlyniadau cadarnhaol ffug. Felly, pan wneir llawer o gymariaethau, mae natur geidwadol y prawf yn fantais gan ei bod yn lleihau'r siawns hon (ond nid yw'n ei dileu).

Pan gaiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu cymharu â chanlyniadau o ffynonellau eraill, nid ydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd.

Dadansoddiad atchweliad

Ar ôl ystyried canlyniadau'r arolwg, ymgorfforwyd ffactorau a ystyriwyd gennym yn debygol o ddylanwadu ar gael cysylltiad band eang cyflym iawn yn y model atchweliad. Roedd y model terfynol yn cynnwys y ffactorau hynny sy'n aros yn arwyddocaol hyd yn oed ar ôl cynnal y ffactorau eraill yn gyson. Mae'r ffactorau arwyddocaol hyn yn cael eu trafod yn y bwletin hwn

Mae mwy o fanylion ar y ffordd y lluniwyd y dadansoddiad atchweliad yn yr adroddiad hwn, ac ar y model atchweliad, ar gael yn yr Adroddiad Technegol hwn: Dull o weithredu dadansoddiad atchweliad a'r modelau a gynhyrchwyd.

Adroddiad technegol

Nodir gwybodaeth fanylach am fethodoleg yr arolwg yn [adroddiad technegol](#) yr arolwg.

Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LICD)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith ar gyfer Cymru. Y nodau hyn yw cael Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach, fwy cyfartal, fwy cyfrifol yn fyd-eang â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig - [Sut mae mesur cynnydd cenedl? - Dangosyddion Cenedlaethol](#)

Rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn hefyd roi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Rhagor o fanylion

Mae'r bwletin hwn ar gael yn: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy>

Diweddariad nesaf

Ddim yn gyhoeddiad rheolaidd

Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu drwy e-bostio arolygon@llyw.cymru.

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan [Drwydded Llywodraeth Agored f.3.0](#), oni nodir fel arall.

